# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2015** |
| Amser: | **09.06 – 10.54** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2608**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Gawain Evans, Llywodraeth Cymru**<br>**Syr Derek Jones, Permanent Secretary, Welsh Government**<br>**Peter Ryland, Llywodraeth Cymru**<br>**David Richards, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Glerc)**<br>**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**<br>**Steve Ashcroft (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Mark Jeffs (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Jeremy Morgan (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)** |

Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)

---

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn am amserlen glir o ran y camau gweithredu yn ôl ei argymhellion ar y Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon.

## 3 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau 2014: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Llywodraeth Cymru'n fanwl ar ei Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau.

3.2 Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu nodyn ar:

- y colledion posibl sy'n ddyledus o ganlyniad i sefydliadau sydd mewn diddymiad;
- nifer y cwynion gan y trydydd sector am y ffordd y mae grantiau wedi'u gweinyddu, a'r achlysuron lle nad yw tri mis o rybudd cyn terfynu contract wedi'i roi;
- nifer yr achosion a oedd wedi'u cynnwys yn yr archwiliad sampl, a lefelau'r diffyg cydymffurfio o fewn y sampl hwnnw;
- y 35 o grantiau a ddaeth i ben yn 2013/14;
- a yw pob un o'r Awdurdodau Lleol yn mynychu ac yn cyfrannu at Hyfforddiant Awdurdod Lleol a ddarperir gan CIPFA (drwy CLlLC) a Llywodraeth Cymru / Swyddfa Archwilio Cymru; a
- y cyllid grant gwerth £22 miliwn sydd wedi'i neilltuo i'r GIG.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Ystyried yr Adroddiad Drafft

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Ofal Iechyd Parhaus y GIG, a chytunodd ar nifer fach o newidiadau.

## 6 Amseroedd Aros y GIG: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Amseroedd Aros y GIG, a chytunodd i wahodd Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned a Bwrdd Iechyd i ddarparu tystiolaeth lafar mewn cyfarfod yn y dyfodol.

6.2 Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Dr Andrew Goodall i holi am yr amserlen ar gyfer gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt, fel y nodir yn ei lythyr.